Y Cyflwyniad Llafar



Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Rhagoriaith Canolfan Gwasanaethau Cymraeg

Y Cyflwyniad Llafar



Y Dasg

Rhaid i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad llafar a fydd yn para 7-8 munud yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth neu y gweithle. Dylai'r cyflwyniad fod yn addas i gynulleidfa o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes hwnnw; hynny yw, dylid sicrhau bod y cyflwyniad yn ddealladwy i rywun sy'n anghyfarwydd â'r pwnc dan sylw.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Canllawiau

- Bydd disgwyl ichi baratoi cyflwyniad (tua 8 sleid PowerPoint).
- Ar ddechrau'r cyflwyniad, dylech ddweud eich enw, eich rhif aelodaeth a'ch dyddiad geni.
- Cofiwch ymarfer eich cyflwyniad yn drwyadl er mwyn sicrhau eich bod yn cadw at y gofynion amser.
- Cofiwch ymarfer gydag offer *Microsoft Teams* o flaen llaw. e.e Bydd angen i chi rannu sgrîn wrth i chi gyflwyno.
- Ni ddylech gynnwys unrhyw ddeunydd Saesneg o gwbl ar eich sleidiau.
- Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd tua 7-8 munud i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau gan arholwr CBAC a'r tiwtor. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododd yn ystod y cyflwyniad.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Dewiswch destun addas.



Dewiswch destun sydd o ddiddordeb i chi. Bydd paratoi ac ymchwilio'n fwy pleserus os oes diddordeb gennych yn y pwnc. Peidiwch â dewis testun nad ydych yn ei ddeall yn iawn neu destun nad ydych chi'n gwybod digon amdano.


Cofiwch y bydd yr arholwr yn eich holi ar ddiwedd y cyflwyniad. Gwnewch yn siwr fod digon o wybodaeth gennych i ateb y cwestiynau hyn yn llawn. Bydd testun addas yn rhoi cyfle i chi:

- ymchwilio i bwnc
- dweud rhywbeth diddorol a fydd yn cadw sylw'r gynulleidfa
- paratoi delweddau deniadol a diddorol, e.e. pwerbwynt yn cynnwys lluniau / delweddau neu graffiau i helpu'r gynulleidfa ddeall a chofio'ch pwyntiau.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Meini Prawf



Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried er mwyn dyfarnu marc ar gyfer yr elfen hon:

- Dull cyflwyno (20 marc)
- Ystod cystrawennau a geirfa (20 marc)
- Cynnwys a threfn y cyflwyniad (20 marc)
- Ymateb i gwestiynau (20 marc)
- Cywirdeb iaith (10 marc)
- Deunydd Gweledol. (10 marc)

<u>Cyfanswm - 100</u>

**Gweler copi manwl o'r cynllun marcio yn yr atodiadau.*

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Pryd?



Bydd eich tiwtor iaith yn cysylltu gyda chi i drefnu amser cyfleus ar gyfer eich cyflwyniad llafar. Bydd yr asesiadau yn dechrau yn ystod canol Chwefror ac yn gorffen ar ddechrau mis Mawrth.

Unwaith y byddwch chi wedi cadarnhau eich amser bydd gwahoddiad Teams yn cael ei anfon atoch chi.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Adnoddau ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol





Cymorth Defnyddiol

https://sway.office.com/PDHDkjjntB12CtUF?loc=swsp

I Agor...

- Y farn gyffredinol heddiw yw bod
- Wrth ystyried y pwnc hwn…
- Un o'r agweddau pwysicaf ar y mater hwn yw…
- Hoffwn gyflwyno gwybodaeth am …
- Y pwnc sydd gen i o dan sylw heddiw yw …
- Pwnc sydd wedi fy niddori ers tro yw …
- Ydych chi wedi clywed am … ?
- Y pwynt cyntaf i'w drafod yw…

Brawddegau Defnyddiol.

- Yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn olaf
- Yn y lle cyntaf
- Awgryma hyn X ond mae X fodd bynnag yn awgrymu mai…
- Wedyn rhaid ystyried
- Mae o leiaf dri phwynt pwysig i'w hystyried yma…

Brawddegau defnyddiol.

- Yr agwedd gyntaf carwn drafod yw …
- Hoffwn ddechrau trwy drafod
- Yr ail agwedd ar y pwnc yw …
- Agwedd arall ar y pwnc yma yw …
- Thema arall sy'n deillio o hyn yw …
- Yn ail, carwn drafod yr agwedd … o'r pwnc
- Ffactor arall yw …
- Carwn sôn nesaf am …
- Agwedd arall ar y pwnc yma yw …
- Thema arall sy'n deillio o hyn yw …
- Tybed ydych chi wedi clywed am ……?
- Carwn sôn nesaf am …

Mewn geiriau eraill...

- Hynny yw,
- Yn hytrach
- O'i roi yn syml
- O'i aralleirio

I Gloi...

- I grynhoi..
- Down i'r casgliad bod…
- Wrth dynnu tua'r terfyn..
- I gloi fy nghyflwyniad …
- Felly, i grynhoi …
- Hoffwn orffen y cyflwyniad trwy sôn am …
- Yn amlwg felly, …
- Diolch i chi am eich gwrandawiad …
- Mae croeso i chi ofyn cwestiynau ar y pwnc yma …
- Rydw i'n hollol fodlon derbyn eich cwestiynau ar fy nghyflwyniad …


Adnoddau ychwanegol.



- Tudalen yn cynnwys canllawiau a chymorth pellach

- Grid asesu y Cyflwyniad Llafar 2021

- Ffilmiau byr CCC yn rhoi cyngor pellach wrth baratoi a chyflwyniadau enghreifftiol ar wefan CCC (dolen ar Moodle)



<u>Tiwtor ar gael</u>

Cofiwch gysylltu os hoffech sgwrs i drafod eich cyflwyniad neu gymorth pellach wth baratoi.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Coleg Cymraeg Cenedlaethol





Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG